## Canllawiau’r Cynllun Ychwanegiad at y Tâl Salwch Statudol (TSS) –

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

## Telerau ac Amodau

Wrth wneud cais am daliad o’r cynllun, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall gofynion y cynllun fel y nodir isod ac y byddwch yn cynnal ac yn cefnogi’r gofynion cymhwysedd, y cyfrifoldebau gweinyddol a’r telerau talu canlynol:

Mae'r term 'cyflogwr' yn y telerau ac amodau hyn yn cyfeirio at bob perthynas gyflogaeth o'r fath, a hefyd at asiantaethau cyflogwyr, ac eithrio lle gwneir gwahaniaethau ar wahân.

**Rhaid cwblhau a chyflwyno'r telerau ac amodau hyn ar gyfer pob cais am arian grant dan y cynllun.**

## <u>Gofynion Cymhwysedd</u>

Er mwyn bod yn gymwys, mae’n rhaid i’r unigolyn fod yn:

- gyflogai cartref gofal cofrestredig (gan gynnwys cartrefi plant)
- cyflogai gwasanaethau gofal cartref
- gweithiwr cymorth mewn llety brys/dros dro
- gweithiwr cymorth mewn tŷ cymorth
- gweithwyr cymorth mewn tai cymorth a gweithwyr allgymorth digartrefedd
- gweithiwr cymorth o gynllun tai cymorth sy'n rhoi cymorth yn ôl yr angen mewn cartrefi pobl
- gweithiwr gofal asiantaeth neu nyrs asiantaeth (sydd â gwaith wedi’i drefnu mewn cartref gofal a gofrestrwyd, gwasanaeth gofal cartref neu wasanaeth cymorth tai sy’n rhan o’r cynllun)
- staff banc neu gronfa y trefnwyd iddynt gyflawni cyfres o shifftiau mewn lleoliad neu wasanaeth cymwys
- staff dan gontract sy’n darparu gwasanaethau dyddiol hanfodol fel arlwyo rheolaidd mewn cartrefi gofal ac sy’n dod i gysylltiad sylweddol â phreswylwyr
- cynorthwyydd personol a delir trwy daliadau uniongyrchol
- staff ategol mewn llety â chymorth tebyg i ‘hostel’, gydag ardaloedd cyffredin mawr a threfniadau arlwyo

Caiff cyflogai sydd â dwy swydd, lle y bo’r ddwy yn gymwys ar gyfer y cynllun, hawlio taliadau ar gyfer y ddau gyflog yn rhan-amser.

Mae'r cynllun yn cael ei gynnal o 1 Tachwedd 2020 tan 30 Medi 2021.

Mae Gweithwyr Cymorth yn gymwys i hawlio o 14 Rhagfyr 2020 tan 30 Medi 2021

Mae Gweithwyr Allgymorth Digartrefedd yn gymwys i hawlio o 24 Rhagfyr 2020 i 30 Medi 2021

Mae staff Ategol mewn llety â chymorth tebyg i 'hostel', gydag ardaloedd cyffredin mawr a threfniadau arlwyo yn gymwys i hawlio o 05 Mawrth 2021 i 30 Medi 2021.

Er mwyn bod yn gymwys, gall yr unigolyn fod:

- yn llawn-amser neu'n rhan-amser
- dan gontract cyflogaeth dim oriau
- dan gontract parhaol neu dros dro
- yn gweithio drwy asiantaeth gofal
- yn staff banc neu gronfa
- yn hunangyflogedig

Rhaid bod yr unigolyn yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd un o'r canlynol:

- mae ganddo symptomau COVID-19
- mae wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19
- mae'n hunanynysu gan ei fod wedi'i nodi'n gyswllt gan wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) GIG Cymru
- mae'n hunanynysu gan fod gan aelod o'i aelwyd symptomau COVID-19 neu wedi cael prawf positif

Mae'r cynllun ychwanegiad at y tâl salwch statudol yn cefnogi gweithwyr gofal sydd dim ond yn cael **tâl salwch statudol (TSS)** pan fyddant yn absennol neu'r rheiny nad ydynt yn gymwys i gael TSS.

Mae'r canllaw ynghylch pa mor hir y dylai gweithwyr hunanynysu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/hunanynysu-canllawiau-aros-gartref-i-aelwydydd-coronafeirws-posibl

Mae'r cyfnodau y telir yr Ychwanegiad at y TSS ar eu cyfer yn dibynnu ar hyd y cyfnod hunanynysu a nodir yn y canllawiau presennol. Gan y gallai hyn newid, nid ydym wedi nodi hyd y cyfnodau hunanynysu uchod. Cyflogwyr sy'n gyfrifol am gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion presennol.

Y cyfnodau hunanynysu a nodir yn y canllawiau hunanynysu yw'r cyfnodau hwyaf y bydd y cynllun Ychwanegiad at y TSS yn rhoi arian ar eu cyfer mewn perthynas â'r cyflogai neu'r gweithiwr asiantaeth unigol.

Staff a gyflogir

Mae'r ychwanegiad yn daladwy o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Os nad yw'r cyflogai'n gymwys i gael TSS, bydd y cynllun yn rhoi 100% o'r incwm arferol.

Disgwylir i'r cyflogai geisio prawf COVID-19 ar unwaith a dychwelyd i'r gwaith cyn gynted ag y gall, yn unol â'r cyngor iechyd presennol.

Os bydd cyflogai’n profi’n negyddol ond yn sâl oherwydd salwch gwahanol, mae’n rhaid i’r ychwanegiad at y TSS ddod i ben a bydd yr incwm ar gyfer gweddill yr absenoldeb yn gostwng i’r hyn y byddai fel arfer pan fydd y cyflogai’n cymryd absenoldeb oherwydd salwch.

Pan fydd y cyflogai’n profi’n bositif ar gyfer COVID-19, telir yr ychwanegiad am y cyfnod hunanynysu gofynnol. Os bydd y cyflogai’n parhau’n sâl ac yn methu dychwelyd i’r gwaith, mae’n rhaid i’r cynllun ychwanegiad at y TSS ddod i ben a bydd yr incwm ar gyfer gweddill yr absenoldeb yn gostwng i’r hyn y byddai fel arfer pan fydd y cyflogai’n cymryd absenoldeb oherwydd salwch.

Pan fydd gofyn i’r cyflogai hunanynysu, mae’r taliad ar gyfer y cyfnod penodol hwnnw yn unig. Er enghraifft, mae cyflogai yn absennol am 4 diwrnod gyda symptomau ac yn aros am ganlyniadau prawf:

- Ar ôl cael canlyniad prawf negyddol, mae’r cyflogai’n teimlo'n dda ac yn dychwelyd i'r gwaith. Mae'r hawliad am 4 diwrnod o incwm tynnu unrhyw dâl salwch statudol a dalwyd.

- Ar ôl cael canlyniad prawf negyddol, mae'r cyflogai’n parhau i deimlo'n sâl ac yn aros yn absennol o'r gwaith. Mae'r hawliad am 4 diwrnod o incwm tynnu unrhyw dâl salwch statudol a dalwyd. Ni ellir hawlio am yr absenoldeb pellach, gan nad yw'n gysylltiedig â COVID-19.

- Ar ôl cael canlyniad prawf positif, mae'r cyflogai yn absennol am 10 diwrnod arall neu am y cyfnod sy'n unol â'r cyngor iechyd cyfredol. Mae'r hawliad am 14 diwrnod o incwm tynnu unrhyw dâl salwch statudol a dalwyd. Gall hawliadau fod yn ddilyniannol yn yr achos hwn h.y. hawlio am y cyfnod yr oedd y cyflogai yn amau iddo fod â COVID-19 ac yna am orfod hunanynysu yn sgil cael canlyniad prawf positif am COVID-19, neu am gyfnod sy'n unol â'r cyngor iechyd cyfredol.

- Ar ôl cael canlyniad prawf positif, mae'r cyflogai yn absennol am 30 diwrnod arall oherwydd effaith y feirws. Mae'r hawliad am 14 diwrnod o incwm tynnu unrhyw dâl salwch statudol a dalwyd. Dyma'r hawliad am y cyfnod yr oedd y cyflogai yn amau iddo fod â COVID-19 ac yna 10 diwrnod ar gyfer hunanynysu yn sgil cael canlyniad prawf positif am COVID-19, neu am gyfnod sy'n unol â'r cyngor iechyd cyfredol.

- Ar ôl cael canlyniad prawf positif, mae'r cyflogai yn penderfynu cymhwyso'r cynllun cymorth Hunanynysu (gweler isod). Mae'r cyflogai yn hysbysu'r cyflogwr sy'n sicrhau bod yr ychwanegiad at y TSS yn dod i ben ar y diwrnod y cafwyd canlyniad prawf positif.

Nid oes cyfyngiad ar sawl gwaith y gall cyflogeion cymwys elwa o'r cynllun hwn.

Staff asiantaeth

Mae’r ychwanegiad yn daladwy o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Os nad yw’r gweithiwr asiantaeth yn gymwys i gael TSS, bydd y cynllun yn rhoi 100% o’r incwm arferol.

Disgwylir i'r gweithiwr asiantaeth geisio prawf COVID-19 ar unwaith a hysbysu'r asiantaeth cyn gynted ag y ceir canlyniad. Ni chaiff unrhyw ychwanegiad pellach ei dalu ar ôl cael canlyniad negyddol. Os bydd y gweithiwr asiantaeth yn parhau’n sâl oherwydd salwch gwahanol, rhaid i'r taliad ddod i ben gan nad yw'r cynllun hwn yn berthnasol mwyach.

Pan fydd gweithiwr asiantaeth yn profi'n bositif am COVID-19, bydd y cynllun yn talu’r gweithiwr am bob shifft sydd eisoes wedi'i threfnu ar yr adeg y mae’n amau y gall fod ganddo symptomau neu’n cael prawf, pa un bynnag yw'r cynharaf. Mae'r taliad ar gyfer y shifftiau a drefnwyd o fewn y cyfnod ynysu gofynnol yn unig gan ddidynnu unrhyw TSS.

Os bydd y gweithiwr asiantaeth yn parhau'n sâl ar ôl y cyfnod ynysu a nodir yn y canllawiau cyfredol, rhaid i daliadau o’r cynllun Ychwanegiad at y TSS ddod i ben ac mae’r incwm am weddill yr absenoldeb yn gostwng gan swm y TSS neu gan sero, yn dibynnu ar ei amgylchiadau arferol.

Pan fydd angen i’r gweithiwr asiantaeth hunanynysu, mae'r taliad ar gyfer shifftiau sydd eisoes wedi'u trefnu ac ar gyfer y cyfnod a nodir yn unig. Er enghraifft, mae gweithiwr asiantaeth yn absennol am 4 diwrnod gyda symptomau ac yn aros am ganlyniadau prawf:

- Ar ôl cael canlyniad prawf negyddol, mae’r gweithiwr asiantaeth yn teimlo'n dda ac yn dychwelyd i'r gwaith. Mae'r hawliad ar gyfer unrhyw shifftiau a drefnwyd ymlaen llaw tynnu unrhyw dâl salwch statudol a dalwyd.

- Ar ôl cael canlyniad prawf negyddol, mae'r gweithiwr asiantaeth yn parhau i deimlo'n sâl ac yn aros yn absennol o'r gwaith. Mae'r hawliad ar gyfer unrhyw shifftiau a drefnwyd ymlaen llaw am 4 diwrnod tynnu unrhyw dâl salwch statudol a dalwyd. Ni ellir hawlio am yr absenoldeb pellach, gan nad yw'n gysylltiedig â COVID-19.

- Ar ôl cael canlyniad prawf positif, mae'r gweithiwr asiantaeth yn absennol am 10 diwrnod arall neu am y cyfnod sy'n unol â'r cyngor iechyd cyfredol. Mae'r hawliad ar gyfer talu am unrhyw shifftiau a drefnwyd ymlaen llaw am gyfanswm o 14 diwrnod tynnu unrhyw dâl salwch statudol a dalwyd. Gall hawliadau fod yn ddilyniannol yn yr achos hwn h.y. hawlio am y cyfnod yr oedd yr unigolyn yn amau iddo fod â COVID-19 ac yna am orfod hunanynysu yn sgil cael canlyniad prawf positif am COVID-19, neu am gyfnod sy'n unol â'r cyngor iechyd cyfredol.

- Ar ôl cael canlyniad prawf positif, mae'r gweithiwr asiantaeth yn absennol am 30 diwrnod arall oherwydd effaith y feirws. Mae'r hawliad ar gyfer talu am unrhyw shifftiau a drefnwyd ymlaen llaw am gyfanswm o 14 diwrnod tynnu unrhyw dâl salwch statudol a dalwyd. Dyma'r hawliad am y cyfnod yr oedd yr unigolyn yn amau iddo fod â COVID-19 ac yna 10 diwrnod ar gyfer

hunanynysu yn sgil cael canlyniad prawf positif am COVID-19, neu am gyfnod sy'n unol â'r cyngor iechyd cyfredol. Ni fydd y cynllun yn talu'r gweithiwr asiantaeth am gyfnod llawn ei salwch. Bydd yn talu dim ond am y cyfnod lle y gall y gweithiwr asiantaeth fod yn heintus, gan mai dyma gynsail y cynllun.

- Ar ôl cael canlyniad prawf positif, mae'r gweithiwr asiantaeth yn penderfynu cymhwyso'r cynllun cymorth Hunanynysu (gweler isod). Mae'r gweithiwr asiantaeth yn hysbysu'r cyflogwr sy'n sicrhau bod yr ychwanegiad at y TSS yn dod i ben ar y diwrnod y cafwyd canlyniad prawf positif.

Nid oes cyfyngiad ar sawl gwaith y gall cyflogeion cymwys elwa o'r cynllun ychwanegiad at y TSS.

<u>Tâl Salwch</u>

Bydd unigolyn yn gymwys os bydd yn derbyn TSS yn unig pan fydd yn sâl neu os nad yw'n gymwys i gael TSS.

Bwriad y cynllun hwn yw cynyddu cyflog unigolion os bydd yn troi at TSS o ganlyniad i absenoldeb o'r gwaith oherwydd COVID-19. Ariennir yr ychwanegiad hwn gan Lywodraeth Cymru. Ni ddylai cyflogwyr geisio adennill costau'r ychwanegiad uchod o'r Cynllun Ad-daliad Tâl Salwch Statudol (CATSS). Ni ddylai cyflogwyr ychwaith geisio hawlio ychwanegiad at y TSS gan CThEM. Gall cyflogwyr sy'n gwneud hawliadau anghywir drwy'r CATSS fod yn destun gweithgarwch gwirio cydymffurfiaeth CThEM.

Bydd gweithwyr rhan-amser yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn o'r diwrnod cyntaf pan na allant ddod i mewn i'r gwaith oherwydd rheswm am absenoldeb sy'n ymwneud â COVID-19, pan fyddant i fod i weithio.

Os bydd cyflogeion yn profi'n bositif am COVID-19 neu os gofynnir iddynt hunanynysu yn ystod cyfnod o wyliau blynyddol a drefnwyd ymlaen llaw, bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun yn dibynnu ar bolisi absenoldeb salwch y cyflogwr ac a fyddai'r cyflogai, dan y fath amgylchiadau, fel arfer yn cael ei ystyried yn sâl ac felly ddim yn defnyddio gwyliau blynyddol.

<u>Os bydd y cyflogwr yn talu tâl llawn dan rai neu'r holl amgylchiadau absenoldeb salwch</u>

- ni fydd y cyflogai'n gymwys ar gyfer y cynllun hwn os bydd yn derbyn cyflog llawn am bob absenoldeb salwch (sy'n cynnwys yr absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a nodir uchod).

- bydd y cyflogai'n gymwys os bydd y cyfnod y rhoddir cyflog llawn ar ei gyfer yn gyfyngedig o ran faint a bod y cyflogai wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

- mae’r cyflogai yn gymwys am ychydig ddyddiau cyntaf yr absenoldeb, os na fydd y cyflogwr yn rhoi cyflog llawn am y cyfnod hwn.

- bydd y cyflogai’n gymwys os na chaiff cyflog llawn ei roi yn ystod cyfnod prawf.

Nid yw’r cyflogai’n gymwys ar gyfer y cynllun hwn os bydd:

- ganddo gyfrifoldebau gofal plant neu ofalu, hyd yn oed os bydd ysgolion neu wasanaethau dydd wedi cau oherwydd COVID-19

- angen iddo fynd i mewn i gwarantîn ar ôl teithio tramor.

- yn methu gweithio ar ôl cael ei asesu yn risg uchel drwy offeryn asesu risg COVID-19 i’r gweithlu Cymru Gyfan.

- wedi cael ei gynghori gan feddyg teulu neu feddyg mewn ysbyty i hunanynysu fel rhagofal cyn neu ar ôl triniaeth feddygol

| **Rolau staff cymwys** | |
|---|---|
| Rôl | Gwybodaeth am gymhwysedd |
| Gweithwyr gofal cartref | Mae gweithwyr gofal a gyflogir gan wasanaeth cymorth cartref cofrestredig yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys:<br>gweithwyr gofal sy'n rhoi gofal i bobl mewn cartrefi preifat<br>pobl mewn trefniant byw â chymorth |
| Gweithwyr gofal a nyrsys a gyflogir mewn cartrefi gofal | Mae gweithwyr gofal a gyflogir i ofalu am bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal cofrestredig yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys:<br>cartrefi gofal i oedolion hŷn, oedolion iau a phlant<br>ysgolion a cholegau arbennig preswyl sydd wedi'u cofrestru fel cartrefi gofal gydag Arolygiaeth Gofal Cymru |
| Staff ategol mewn cartrefi gofal a llety â chymorth tebyg i ‘hostel’ | Mae cogyddion, staff domestig, gweinyddwyr, cydlynwyr gweithgareddau, staff cynnal a chadw a staff ategol eraill yn gymwys os oes angen iddynt weithio mewn cysylltiad agos â phreswylwyr yn rheolaidd. |

| | |
|---|---|
| Rheolwyr a staff goruchwylio mewn cartrefi gofal a gwasanaethau cartref | Mae uwch staff yn gymwys i gael eu talu pan fydd angen iddynt, yn rhan o'u gwaith, fod yn agos at y bobl sy'n derbyn gofal ac na allant gadw pellter cymdeithasol. |
| Staff sy'n gweithio i gontractwyr mewn cartrefi gofal | Rhaid i staff fod yn darparu gwasanaethau dyddiol hanfodol fel gwasanaethau arlwyo neu lanhau rheolaidd ac yn dod i gysylltiad sylweddol â phreswylwyr |
| Cynorthwywyr Personol (CP) | Mae CP yn rhoi gofal a chymorth personol i unigolion yn eu cartrefi eu hunain. Dim ond pan fyddant yn cael eu talu drwy daliadau uniongyrchol ac nid drwy drefniadau eraill y mae CP yn gymwys. |
| Gweithwyr cymorth mewn cynlluniau tai cymorth, cymorth yn ôl yr angen a llety brys a gweithwyr allgymorth digartrefedd | Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i weithwyr cymorth yn y cynlluniau cymorth hyn. |
| Gweithwyr gofal asiantaeth a nyrsys asiantaeth | Staff asiantaeth y mae gwaith wedi'i drefnu iddynt mewn gwasanaeth cymwys. Rhaid i'r gweithiwr fod wedi cadarnhau shifftiau cyn sylwi ar symptomau neu cyn bod angen iddo hunanynysu. |
| Gweithwyr banc/cronfa/achlysurol | Gweithwyr â shifftiau sydd wedi'u trefnu mewn gwasanaeth cymwys. Rhaid i'r gweithiwr fod wedi cadarnhau shifftiau cyn sylwi ar symptomau neu cyn bod angen iddo hunanynysu. |
| Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd | Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gyflogir gan gartref gofal cofrestredig neu wasanaeth gofal cartref, ac sy'n gweithio ynddo, yn gymwys os ydynt yn rhoi gofal a chymorth uniongyrchol i bobl ac nad oes modd cadw pellter cymdeithasol. |

| **Rolau staff anghymwys** | |
|---|---|
| Rôl | Gwybodaeth am gymhwysedd |

| | |
|---|---|
| Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd, gan gynnwys ysbytai preifat a hosbisau | Diben penodol y cynllun hwn yw cefnogi staff gofal cymdeithasol ac nid yw'n berthnasol i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd. |
| Rheolwyr rhanbarthol/ Unigolion Cyfrifol | Nid yw rheolwyr rhanbarthol nac unigolion cyfrifol fel arfer wedi'u lleoli yn y gwasanaethau gofal ac nid ydynt yn rhoi gofal personol. Nid ydynt yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn oni bai eu bod yn gallu dangos eu bod yn gymwys oherwydd eu trefniadau gweithio penodol. |
| Gofalwyr maeth | Mae gofalwyr maeth yn derbyn lwfans ac yn gyffredinol nid ydynt yn gyflogeion a delir. Nid ydynt yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn. |
| Gofalwyr cysylltu bywydau | Mae gofalwyr cysylltu bywydau yn derbyn lwfans ac yn gyffredinol nid ydynt yn gyflogeion a delir. Nid ydynt yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn. |
| Gweithwyr mewn canolfannau preswyl i deuluoedd | Nid yw'r gweithwyr yn rhoi lefelau sylweddol o ofal personol ac nid ydynt yn gymwys ar gyfer y cynllun. |
| Staff eraill mewn cartrefi gofal i blant | Nid yw staff addysgu, staff therapiwtig na staff swyddfa mewn cartrefi gofal i blant ac ysgolion neu golegau arbennig preswyl yn gymwys ar gyfer y cynllun. Mae staff o'r fath yn debygol o allu cadw pellter cymdeithasol ac nid yw eu rolau'n cynnwys gofal uniongyrchol. |
| Ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cymunedol | Nid yw gweithwyr gofal cymdeithasol a gyflogir mewn gwasanaethau cymunedol yn gymwys ar gyfer y cynllun, oni bai eu bod wedi'u hadleoli i rôl staff gymwys. |
| Gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl | Nid yw gwirfoddolwyr na gofalwyr di-dâl wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn, sydd ar gyfer gweithwyr a delir. |
| Gwasanaethau chwarae a gofal plant | Nid yw gweithwyr gofal a gyflogir gan y gwasanaethau hyn yn rhoi gofal personol mewn cartrefi pobl ac nid ydynt yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn. |

Materion trawsffiniol

Os yw'r cyflogai neu'r gweithiwr asiantaeth yn gweithio mewn gwasanaeth cymwys yng Nghymru, mae'n gymwys ar gyfer y cynllun, ni waeth ble mae'n byw.

Os yw'r cyflogai neu'r gweithiwr asiantaeth yn gweithio mewn gwasanaeth cymwys y tu allan i Gymru, nid yw'n gymwys ar gyfer y cynllun, ni waeth ble mae'n byw.

Os yw'r cyflogai neu'r gweithiwr asiantaeth yn gweithio i asiantaeth gofal cartref sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru ac yn rhoi gofal i bobl yng Nghymru, mae'n gymwys ar gyfer y cynllun.

Os yw'r cyflogai neu'r gweithiwr asiantaeth yn gweithio i asiantaeth gofal cartref nad yw wedi'i chofrestru yng Nghymru, fel arfer ni fydd yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Eithriad i hyn yw pan fydd gofal cartref yn cael ei gomisiynu gan awdurdod lleol i fodloni'r anghenion a nodir mewn cynllun gofal a chymorth unigolyn, ond pan fydd yr asiantaeth gofal cartref wedi'i heithrio rhag cofrestru - nodir hyn yn Rhan 2 Rheoliad 3(1)(b) y Rheoliadau (Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol).

Rhaid i CP fod yn rhoi gofal a chymorth i unigolyn sy'n cael taliadau uniongyrchol gan awdurdod lleol yng Nghymru.

## Cyfrifoldebau Gweinyddol

Rhoi gwybod i gyflogai/gweithwyr asiantaeth am argaeledd y cynllun;

Pan fydd absenoldeb:

- Mae'r cyflogai neu'r gweithiwr asiantaeth yn hysbysu'r cyflogwr/asiantaeth na all ddod i'r gwaith yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr ynghylch cofnodi absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r cyflogwr neu'r asiantaeth yn cadarnhau a yw'r cyflogai neu'r gweithiwr asiantaeth yn gymwys a bydd yn ei roi yn awtomatig ar y cynllun ychwanegiad at y TSS oni bai ei fod yn cael ei hysbysu fel arall (er enghraifft os yw'r cyflogai neu'r gweithiwr asiantaeth am ddefnyddio'r cynllun Cymorth Hunanynysu yn lle).
- Efallai y bydd cyflogai neu weithiwr asiantaeth sy'n derbyn taliad o'r cynllun hwn pan amheuir bod ganddo COVID-19 yn dewis gwneud cais i'r cynllun Cymorth Hunanynysu yn dilyn canlyniad prawf positif (os yw'n gymwys ar gyfer y cynllun cymorth Hunanynysu). Er y bydd yr absenoldeb yn barhaus, ystyriwn fod hyn yn newid mewn amgylchiadau sy'n galluogi symud rhwng cynlluniau ac felly cânt eu trin fel dau absenoldeb ar wahân yn y bôn.
- Yn yr achos hwn, rhaid i'r cyflogai neu'r gweithiwr asiantaeth hysbysu'r cyflogwr/asiantaeth ar unwaith y cafwyd canlyniad prawf positif ac am y ffaith ei fod am fanteisio ar y cynllun Cymorth Hunanynysu. Mae'r cynllun ychwanegiad at y TSS yn dod i ben ac ni ddylai unrhyw un o'r dyddiadau orgyffwrdd gan y byddai hyn yn golygu taliad dyblyg.
- Gellir talu hawliadau am absenoldebau o 1 Tachwedd, ond nid am unrhyw absenoldebau cyn hynny. Fel egwyddor barhaus, dylid gwneud taliadau ym

mhecyn cyflog y mis y digwyddodd y cyfnod absenoldeb penodol hwnnw ac ni ddylid eu talu'n ddiweddarach.

Pan ddaw'r cymhwysedd o ran absenoldeb neu amser i ben:

Mae'r cyflogwr yn:

- hawlio'r gwahaniaeth rhwng TSS a chyflog llawn (os bydd y cyflogai'n derbyn TSS) neu'n hawlio gwerth cost y cyflog llawn (os na fydd y cyflogai'n derbyn TSS).

Mae'r asiantaeth yn:

- hawlio'r gwahaniaeth rhwng TSS a thâl y gweithiwr asiantaeth mewn perthynas â'r shifftiau a drefnwyd ymlaen llaw ar gyfer yr absenoldeb perthnasol (os bydd y gweithiwr yn derbyn TSS).
- hawlio swm llawn tâl y gweithiwr asiantaeth mewn perthynas â'r shifftiau a drefnwyd ymlaen llaw ar gyfer yr absenoldeb perthnasol.

Cyfrifoldebau Cyffredinol

Rhaid i'r cyflogwr / asiantaeth:

- Gasglu a chadw datganiadau (Ffurflen 1) gan yr holl staff a'u cadw am ddwy flynedd at ddibenion archwilio/gwirio; Yn ddelfrydol, dylid llenwi a chyflwyno'r ffurflen cyn i unrhyw absenoldeb ddigwydd. Gellir defnyddio'r ffurflen ar gyfer yr holl absenoldebau perthnasol. Diben y ffurflen yw cael caniatâd y cyflogai a'r gweithiwr asiantaeth o ran rhannu data personol.
- Cadw tystiolaeth a chofnodion i gadarnhau tâl cyflogai/gweithiwr asiantaeth ac unrhyw TSS a dalwyd, ar gyfer adolygiad neu archwiliad cyfrifyddu llyfr agored, ar gais;
- Sicrhau y caiff ffurflenni hawlio (Ffurflen 2) eu llenwi'n llawn, eu cyflwyno a'u cadw yn unol â'r canllawiau.
- Cadw a rheoli data personol yn unol â rheoliadau GDPR;
- Dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar wneud pob hawliad, a chydymffurfio â phob adran. Rhagor o wybodaeth yma:
  Cynllun Taliad Chwyddo'r Tâl Salwch Statudol (caerdydd.gov.uk)

## Telerau Talu

- Mae gan gyflogwyr hawl i wneud cais am gostau cyffredinol ychwanegol ar gyfradd safonol o £5 yr hawliad.
- Mae'r cyflogwr yn talu'r cyflog llawn i'r cyflogai yn unol â'r trefniadau cyflogres arferol (wythnosol neu fisol) Os yw'r oriau'n afreolaidd, dylai'r cyflog fod yn gyfartaledd yr 8 wythnos neu ddau fis diwethaf. Ni ddylai'r cyfrifiad hwn gynnwys bonysau nac ôl-dâl.
- Mae'r Asiantaeth yn talu gweithwyr asiantaeth am y shifftiau a drefnwyd ar yr adeg y gwyddent gyntaf na allent weithio oherwydd COVID-19 am hyd eu habsenoldeb dan y cynllun hwn, trwy'r trefniadau cyflogres arferol.

- Dylai cyflogwyr ac asiantaethau sicrhau nad yw taliadau i gyflogeion/gweithwyr asiantaeth yn cael eu gohirio.
- Bydd y cynllun yn talu am hyd yr absenoldeb sydd yn sgil gorfod hunanynysu o ganlyniad i COVID-19 (a nodir yn y cyngor iechyd cyfredol);
- Bydd y Cyflogwr / Asiantaeth yn hysbysu'r awdurdod lleol ac yn rhoi manylion rhif Yswiriant Gwladol y cyflogai, ei gyflog, nifer yr oriau yr oedd yn absennol, dyddiadau'r absenoldeb a TSS wedi'i ddidynnu.
- Mae'r broses hon yn berthnasol i ddarparwyr gofal, gweithwyr cymorth, contractwyr a chyflogwyr Cynorthwywyr Personol.
- Bydd yr awdurdod lleol yn ad-dalu'r cyflogwr drwy daliadau misol, neu'n amlach os oes angen oherwydd pryderon llif arian parod y cyflogwr.
- Bydd taliadau uniongyrchol yn parhau i gael eu gwneud i alluogi cyflogwyr i wneud taliadau priodol i Gynorthwywyr Personol dan y cynllun hwn.
- Bydd y cyflogwr neu'r asiantaeth yn cyflwyno'r hawliad i'w awdurdod lleol i adennill costau'r cynllun yn fisol neu'n amlach yn ôl y gofyn at ddibenion llif arian parod (i'w gytuno gyda'r awdurdod lleol). Gall hawliadau fod ar gyfer absenoldebau rhannol os yw absenoldeb yn cynnwys y dyddiad terfyn ar gyfer hawlio neu ddechrau'r cynllun ar 1 Tachwedd.
- Bydd y Cyngor yn prosesu'r ad-daliadau yn nhrefn y dyddiad derbyn.
- Ystyrir yr ychwanegiad fel enillion. Felly mae'n destun treth, cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn ac ad-daliadau benthyciad myfyrwyr, lle y bo'n briodol. Bydd hefyd yn cael ei gynnwys mewn cyfrifiadau budd-daliadau. Gan y bydd y taliadau hyn yn mynd â chyflog cyflogai i fyny at lefel cyflog llawn, dylai'r didyniadau fod yr un peth a'r rhai a gymerir fel arfer o'r cyflog. Nid ydym yn disgwyl i hyn achosi unrhyw broblemau penodol.
- Gellir ad-dalu cyflogwyr ac asiantaethau am Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn. Mae Gweinidogion wedi cydnabod pryderon a fynegwyd gan y sector a gellir adennill costau erbyn hyn. Caiff cyfraniadau ar gyfer absenoldebau perthnasol a wneir o ddechrau'r cynllun ar 1 Tachwedd eu hadalu drwy Ffurflen 2.

Cofiwch y gall gymryd hyd at 6 wythnos i brosesu'r rhain ac iddynt ymddangos yn eich cyfrif. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm yn y cyfeiriad e-bost canlynol: cynllunTChTSS@caerdydd.gov.uk.

## Eich rhwymedigaethau cyffredinol i ni

Ar adeg gwneud cais, mae angen i chi gyflwyno gwybodaeth wir a chywir i'r Cynllun Ychwanegiad at y Tâl Salwch Statudol i ategu'ch cais am hawliad.

Mae'n rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith trwy gysylltu â cynllunTChTSS@caerdydd.gov.uk os:

I. Yw taliad wedi'i wneud i chi mewn camgymeriad, a, neu, os oes unrhyw amgylchiadau a allai fod wedi effeithio ar y penderfyniad i gymeradwyo eich hawliad pe bai'r Cyngor yn gwybod amdanynt ar adeg eich hawliad;
II. Os oes gennych unrhyw amheuon na fydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eich cais yn hollol gyflawn, gwir neu gywir, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Eich ystyriaeth o'r holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau cymhwysedd;

III. Nad ydych wedi datgelu pob ffaith neu amgylchiad perthnasol i ni fel y gallwn ni gael dealltwriaeth wir a chywir er mwyn prosesu eich taliadau'n gywir.

## Diogelu Data

Cafodd y wybodaeth sydd yn eich cais ei defnyddio i brosesu eich cais am y Cynllun Ychwanegiad at y Tâl Salwch Statudol

- Caiff gwybodaeth bersonol a roddir trwy eich cais ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd fel y rheolwr data at ddibenion penodol Cynllun Grantiau Busnes Llywodraeth Cymru;
- Prosesir data personol yn unol â Pholisi Preifatrwydd Cyngor Caerdydd ac ni chaiff ei rannu gydag unrhyw sefydliad trydydd parti heb eich cydsyniad penodol oni bai bod angen i ni wneud hynny neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith;
- Mae dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i ddiogelu arian cyhoeddus ac mae'n cymryd rhan mewn gwahanol ymarferion atal twyll gyda nifer o bartneriaid ac asiantaethau allanol. Mae'n bosibl y caiff eich data ei rannu/ei ddefnyddio at ddiben Atal a Chanfod twyll lle yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol, yn briodol ac yn gyfreithlon gwneud hynny;
- Ceir rhagor o wybodaeth am rwymedigaethau'r Cyngor o ran Diogelu Data ar dudalenPolisi Preifatrwydd y Cyngor.

## Twyll

- Mae gan Gyngor Caerdydd ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus ac mae wedi cyhoeddi ymagwedd dim goddefgarwch tuag at dwyll;
- Bydd y Cyngor yn gweithredu'n gadarn ac yn bendant pan fo amheuaeth am dwyll, bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i amheuon, cysylltu â Heddlu De Cymru, rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon a chymryd camau i adennill unrhyw golledion a chosbi troseddwyr
- Bydd unrhyw arian sy'n cael ei dalu y canfyddir yn ddiweddarach ei fod yn anghymwys yn destun camau adennill yn y dyfodol.

## Datganiad

Rwyf wedi darllen a derbyn telerau'r grant, y gofynion cymhwysedd, fy nghyfrifoldebau a'm rhwymedigaethau.

Rwy'n cydsynio i brosesu a rhannu data fel sy'n berthnasol er mwyn gwneud gwiriadau priodol i ganfod hawliadau dyblyg neu anghywir, ac i wneud archwiliad llyfr agored o gofnodion at ddibenion archwilio/adolygu. Rwy'n derbyn y bydd unrhyw daliadau a nodir fel taliadau anghymwys yn destun camau adennill yn y dyfodol.

Llofnod.......................................................

Enw mewn llythrennau bras……………………………………………………………………

Enw'r Cyflogwr………………………

Dyddiad………………………………………………………………..